| # | Amseru arfaethedig y datganiad | Cyfnod dan sylw | Ble | Manylion y datganiad | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Mawrth -25** | Medi 23-Awst 24 | Gwefan Llywodraeth Cymru | Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion | Mae'r data a ddefnyddir yn y datganiad hwn yn gyfuniad o'r data a gyhoeddwyd mewn dau ddatganiad blaenorol, Absenoldeb o ysgolion cynradd: Medi 2023 i Awst 2024 ac Absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2023 i Awst 2024. Mae hyn yn galluogi dadansoddiad o bresenoldeb ac absenoldeb ar gyfer pob disgybl 5 i 16 oed. |
| 2 | **Gorffennaf -25** | fel ym mis Ionawr 25 | Gwefan Llywodraeth Cymru | Datganiad ystadegol – Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion | |
| 3 | **Awst-25** | Medi 23-Awst 24 | Gwefan Llywodraeth Cymru | Bwletin ystadegol – Gwaharddiadau o ysgolion | |
| 4 | | Medi 24-Awst 25 | DEWi | SDCCG – datganiad o deuluoedd o ysgolion | Trosglwyddiad diogel drwy DEWi |
| 5 | | | Gwefan Llywodraeth Cymru | Datganiad ystadegol – Canlyniadau Cyfrifiad Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol | |
| 6 | | | DEWi | Anfon adroddiadau canlyniadau arholiadau CBAC at awdurdodau lleol – canlyniadau Safon Uwch | Trosglwyddiad diogel drwy DEWi |
| 7 | | | DEWi | Anfon adroddiadau canlyniadau arholiadau CBAC at awdurdodau lleol - canlyniadau TGAU | Trosglwyddiad diogel drwy DEWi |
| 8 | **Medi-25** | | DEWi | SDCCG: Datganiad 1 – Pecynnau cyd-destunol ysgolion ac awdurdodau lleol a data crai | SDCCG: Datganiad 1. |
| 9 | | | DEWi | Graddau cymwysterau a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Ddata Arholiadau Cymru | |
| 10 | | | Gwefan Llywodraeth Cymru | Datganiad ystadegol – Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion uwchradd | Cyfres a elwid gynt yn 'Absenoldeb o ysgolion uwchradd' |
| 11 | **Hydref -25** | | DEWi | Adroddiadau Ymgeiswyr (Dros Dro: Fersiwn 1) | Mae'r fersiwn hon o'r adroddiadau ymgeiswyr yn cynnwys data deilliannau cymwysterau dros dro a rennir gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i'w dilysu. Bydd unrhyw newidiadau y cytunir arnynt yn cael eu hadlewyrchu yn Fersiwn 2, ar gyfer ail gam dilysu, cyn i fersiwn derfynol gael ei rhannu yn Fersiwn 3. |
| 12 | **Hydref -25** | | Gwefan Llywodraeth Cymru | Bwletin ystadegol – Canlyniadau TGAU a Safon Uwch dros dro | |
| 13 | **Hydref / Tachwedd -25** | | DEWi | SDCCG: Datganiad 2 - Pecynnau deilliannau cymwysterau dros dro CA4 ysgolion ac awdurdodau lleol, pecynnau presenoldeb ysgolion uwchradd, pecynnau awdurdodau lleol ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol, a data crai. | Mae'r datganiad hwn yn cynnwys data deilliannau cymwysterau ysgol dros dro sy'n cyfateb i'r data a welir yn Fersiwn 1 o'r adroddiadau ymgeiswyr. Sylwch na fydd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau a wnaed i Fersiwn 1 o'r adroddiadau ymgeiswyr. |
| 14 | **Tachwedd -25** | | Gwefan Fy Ysgol Leol | Fy Ysgol Leol: Diweddariad 1 – diweddariad gyda data cyd-destunol, data cyllid a data presenoldeb uwchradd | |

| # | Amseru arfaethedig y datganiad | Cyfnod dan sylw | Ble | Manylion y datganiad | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | **Tachwedd -25** | Medi 24-Awst 25 | DEWi | Adroddiadau Ymgeiswyr (Dros Dro: Fersiwn 2 | Mae'r fersiwn hon o'r adroddiadau ymgeiswyr yn dilyn cam cyntaf dilysu gan ysgolion ac awdurdodau lleol a bydd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt i'r data yn Fersiwn 1. Mae hyn yn golygu efallai na fydd yn cyfateb i'r data deilliannau cymwysterau dros dro yn Natganiad 2 SDCCG. |
| 16 | | | Gwefan Llywodraeth Cymru | Datganiad ystadegol – Presenoldeb ac absenoldeb mewn ysgolion cynradd | Cyfres a elwid gynt yn 'Absenoldeb o ysgolion cynradd' |
| 17 | **Rhagfyr -25** | | DEWi | Crynodeb Terfynol o Berfformiad Ysgol Uwchradd | Bydd hyn yn cynnwys eglurhad cryno ynghyd â'r ddolen i dudalen yr ysgol ar Fy Ysgol Leol. |
| 18 | | | DEWi | Adroddiadau Ymgeiswyr (Terfynol: Fersiwn 3) | Dyma'r fersiwn derfynol o'r adroddiadau ymgeiswyr a fydd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt ar ôl dilysu fersiynau 1 a 2. Bydd y data yn cyfateb i'r data a ddefnyddir yn Natganiad 3 SDCCG sydd ar ddod. |
| 19 | | | Gwefan Llywodraeth Cymru | Datganiad ystadegol – Canlyniadau terfynol TGAU a Safon Uwch | |
| 20 | | | Gwefan Llywodraeth Cymru | Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion | |
| 21 | **Rhagfyr -25 / Ionawr-26** | | DEWi | SDCCG Datganiad 3 – Pecynnau deilliannau cymwysterau terfynol CA4 ysgolion ac awdurdodau lleol, pecynnau awdurdodau lleol ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol, pecynnau presenoldeb cynradd, pecynnau cyd-destunol a data crai. | Dyma'r datganiad SDCCG terfynol, sy'n cynnwys data deilliannau cymwysterau terfynol yn dilyn dau gam o ddilysu'r adroddiadau ymgeiswyr gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Felly, bydd y data deilliannau cymwysterau yn cyfateb i'r data yn yr adroddiadau ymgeiswyr: fersiwn 3, |
| 22 | **Ionawr -26** | | Gwefan Fy Ysgol Leol | Fy Ysgol Leol: Diweddariad 2 – diweddariad gyda data deilliannau cymwysterau Cyfnod Allweddol 4 a data presenoldeb cynradd | Bydd data deilliannau cymwysterau yn parhau i gael eu cyhoeddi ar ffurf mesurau interim Cyfnod Allweddol 4 nes bod trefniadau newydd ar waith yn barod i'w hadrodd o dan drefniadau newydd o haf 2027 ymlaen. |

**Sylwch:** Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar wybodaeth am gymwysterau yn newid i gefnogi dysgu 14-16 o dan y Cwricwlwm i Gymru. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn ddiweddar ar ei dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac ar Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 arfaethedig. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 14 Mawrth 2025, ond gellir ei weld **yma** (ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda'r system ysgolion) ac **yma** (i'r cyhoedd yn gyffredinol).

Rydym yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ystod haf 2025 ochr yn ochr â datganiad o fwriad ynglŷn â chyflwyno ein dull diwygiedig o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion a'r Fframwaith 14 i 16. Bydd hwn hefyd yn cynnwys ein camau nesaf o ran mireinio trefniadau adrodd, datblygu adnoddau a deunyddiau ategol.